WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? **Cyngor Sir Caerfyrddin**


Blwyddyn yr archwiliad: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 144A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o waith a wnaethpwyd/wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn derbyn dim cyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os daw cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae'r Cod ar gyfer adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ddelio â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, ystyrir Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Briff y prosiect

Pwrpas a ffocws yr adolygiad 4

Manteision arfaethedig 4

Dull 4

Prif gwestiynau’r adolygiad 5

Amserlen 5

Rhestr cyfweld ac arsylwi 6

Cais am ddogfennau 7

Enwau cyswllt Swyddfa Archwilio Cymru 8

Atodiadau

Atodiad 1 – argymhellion **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Gwella Craffu 9

Atodiad 2 – canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol 11

# Briff y prosiect

## Pwrpas a ffocws yr adolygiad

1 Gyda'r cynghorau, byddwn yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut maent yn ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yng nghsywllt eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut mae cynghorau yn dechrau ar y gwaith o graffu ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, gan gynnwys y pwysedd parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o gydweithio ar lefel ranbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn byddwn hefyd yn adolygu cynnydd cynghorau o ran rhoi sylw i'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**[1] Byddwn hefyd yn mynd ar drywydd unrhyw gynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i graffu rydym wedi'u cyhoeddi mewn unrhyw adroddiadau lleol dilynol, gan gynnwys y rheini a ddosbarthwyd i gynghorau fel rhan o'n hadolygiadau thematig o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Pennu Newidiadau Arwyddocaol i Wasanaethau yn 2016-17.

## Manteision arfaethedig

3 Dyma fanteision arfaethedig cynnal y prosiect hwn:

- canfod dulliau o wreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu fel sail ar gyfer rhannu arferion a llywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau cyfredol ac yn y dyfodol;
- helpu i wreiddio craffu effeithiol ar ran aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd hwn ymlaen a
- gweld pa mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

## Dull

4 Fel sylfaen i'n canfyddiadau, byddwn yn seilio ein methodoleg ar y Canlyniadau a'r Nodweddion ar gyfer Trosolwg a Chraffu Effeithiol ar ran Llywodraeth Leol yr oedd rhanddeiliaid craffu yng Nghymru wedi eu llunio ac wedi cytuno arnynt yn sgil ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! – Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: **Craffu mewn Llywodraeth Leol** (Mai 2014) ar gael yn www.archwilio.cymru

5 I ddechrau, byddwn yn cynnal adolygiadau o ddogfennau ac yn cyfweld nifer fechan o swyddogion allweddol, ynghyd â chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr allweddol er mwyn deall eu barn am drefniadau craffu presennol Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ac, yn arbennig, sut mae’r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r heriau a nodwyd uchod. Byddwn hefyd yn trafod y dulliau y mae cynghorau yn eu defnyddio i graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r cyfweliadau.

6 Byddwn yn dewis cyfarfodydd pwyllgorau craffu i arsylwi ac adolygu dogfennau perthnasol y mae aelodau wedi’u cael i'w cynorthwyo gyda’u rôl graffu, megis adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Ar ôl hysbysu bob cyngor o’n canfyddiadau, byddwn yn ystyried beth yw’r ffordd orau i ni weithio gyda rhanddeiliaid craffu eraill er mwyn rhannu dysgu, er enghraifft drwy gyfrwng seminarau rhanbarthol.

# Prif gwestiynau’r adolygiad

Arddangosyn 1: prif gwestiynau'r adolygiad

| **A ydy swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau cyfredol a heriau yn y dyfodol?** |
|---|
| **Lefel 2** |
| **Yr Amgylchedd Craffu:**<br>A ydy'r Cyngor yn creu **amgylchedd** cefnogol er mwyn galluogi'r swyddogaeth graffu i weithredu’n effeithiol? |
| **Arferion craffu:**<br>A ydy'r ffordd y mae’r swyddogaeth graffu yn cael ei **gweithredu** wedi’i chynllunio’n dda ac yn effeithiol, yn wrthrychol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth o amryw o ffynonellau? |
| **Effaith gweithgareddau craffu**<br>A ydy gweithgareddau trosolwg a chraffu yn cyfrannu at **welliannau** yng nghyswllt gwneud penderfyniadau a pherfformiad? |

# Amserlen

8 Mae'r tabl isod yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad er mae’n bosib y bydd yr amserlenni hyn yn amrywio, yn dibynnu ar amgylchiadau cynghorau unigol. Bydd yr amserlen benodol ar gyfer gwneud y gwaith yn cael ei thrafod â’n cyswllt yn y Cyngor fel rhan o'r trefniadau a wnaed ar gyfer y prosiect.

Arddangosyn 2: amserlen arfaethedig

| Amserlen Arfaethedig | |
|---|---|
| Cyfarfod i sefydlu'r prosiect | I'w drafod yn lleol yn y cyfarfod cyswllt ag aelod allweddol y Cyngor – Medi 2017 |
| Gwaith maes, gan gynnwys arsylwi cyfarfodydd | Medi 2017 – Rhagfyr 2017 |
| Cyhoeddi adroddiad lleol | Erbyn diwedd Mawrth 2018 |
| Seminarau Rhanbarthol | Ebrill/Mai 2018 (yr union ddyddiad i'w gadarnhau). |

# Rhestr cyfweld ac arsylwi

Arddangosyn 3: pwy rydym am eu cyfweld fel rhan o'r adolygiad

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Cyfweliad/Grŵp ffocws/Arsylwad | Prif Withredwr |
| Cyfweliad | Swyddog Monitro |
| Cyfweliad | Rheolwr Craffu neu Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Cyfweliad | Cyd-lynydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu swyddog cyfatebol |
| Grŵp ffocws | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu |
| Grŵp ffocws | Cabinet |
| Grŵp ffocws | Aelodau pwyllgor craffu sydd newydd eu hethol yn aelodau o'r Cyngor yn 2017. |
| Grŵp ffocws | Aelodau pwyllgor craffu a oedd hefyd yn aelodau etholedig o'r Cyngor cyn etholiadau 2017. |
| Arsylwad | Cyfarfodydd perthnasol y pwyllgor Trosolwg a Chraffu (rhwng dau a phedwar cyfarfod). |

# Cais am ddogfennau

Arddangosyn 4: y dogfennau yr hoffem wneud cais i'r Cyngor amdanynt

| Teitl y Ddogfen |
|---|
| Enghreifftiau o Gofnodion, Agendâu ac Adroddiadau Craffu, y Cyngor a'r Cabinet (byddem yn dod o hy i rain ar wefan y Cyngor) |
| Enghreifftiau o adroddiadau neu o ddefnyddiau a roddwyd i aelodau mewn cyfarfodydd 'craffu' anffurfiol e.e. gweithdai/seminarau i aelodau neu grwpiau gorchwyl a gorffen (lle bo hynny'n berthnasol). |
| Cofnodion, adroddiadau ac agendâu'r Pwyllgor Craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (neu gyfatebol) |
| Byddwn hefyd yn defnyddio dogfennau y mae cynghorau eisoes wedi'u rhannu â ni mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys dogfennau rydym wedi'u cael fel rhan o'n gwaith 'Sylwebaeth Blwyddyn Un'. |
| Blaenraglenni gwaith ar gyfer y pwyllgor trosolwg a chraffu ar gyfer 2017-18 |
| Strwythurt cefnogi staff ar gyfer y swyddogaeth trosolwg a chraffu |
| Unrhyw adroddiadau'r Cyngor sy'n gwerthuso effeithlonrwydd neu drawiad y pwyllgor trosolwg a chraffu (lle bo'n berthnasol). |
| Unrhyw gynlluniau gwella a ddatblygir o astudiaeth gwella Swyddfa Archwilio Cymru (lle bo'n berthnasol). |
| Unrhyw adroddiad sy'n dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu 10 egwyddorion ymgysylltiad y cyhoedd Cyfranogaeth Cymru wrth wella'r ffordd mae craffu yn yngysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid (lle bo'n berthnasol). |
| Byddwn hefyd cael defnydd o ddogfennau Cyngor sydd eisoes wedi'u rhannu gyda ni mewn perthynas â'r Deddf Llesiant, gan gynnwys dogfennau a gafwyd fel rhan o'n gwaith 'sylwebaeth un flwyddyn'. |

# Enwau cyswllt Swyddfa Archwilio Cymru

Arddangosyn 5: enwau cyswllt Swyddfa Archwilio Cymru

| Enw | Manylion cyswllt |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad | Huw Rees<br>huw.rees@archwilio.cymru<br>02920 320599 |
| Rheolwr Archwilio Perfformiad (cenedlaethol ar gyfer yr astudiaeth thematig hwn) | Non Jenkins<br>non.jenkins@archwilio.cymru<br>02920 320595 |
| Rheolwr Archwilio Perfformiad (lleol) | Jeremy Evans<br>jeremy.evans@archwilio.cymru<br>07825 052861 |
| Arweinydd Archwilio Perfformiad | Alison Lewis<br>Alison.lewis@archwilio.cymru<br>02920 829314 |
| Archwilydd Perfformiad | Gareth Lewis<br>Gareth.lewis2@archwilio.cymru<br>02920 829325 |

# Atodiad 1

## Argymhellion Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Gwella Craffu

Arddangosyn 6: argymhellion **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at ybroses graffu. | • Cynghorau, Llywodraeth Cymru,Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | • Cynghorau, Llywodraeth Cymru,Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor | • Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | • Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | • Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arnier mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneudgwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | • Cynghorau, Llywodraeth Cymru,Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | • Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | • Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | • Cynghorau |

# Atodiad 2

## Canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

Arddangosyn 7: canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae swyddogaeth werthfawr sydd wedi'i diffinio'n glir i graffu yn nhrefniadau gwella'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael cefnogaeth swyddogion pwrpasol sy'n gallu ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol a rhoi hyfforddiant, cyngor a gwasanaeth dadansoddi o ansawdd uchel i aelodau'r pwyllgor Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol gyda methodoleg gadarn sy'n ymgorffori amrywiaeth eang o safbwyntiau a thystiolaeth.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio darparwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol sydd wedi'u hategu â thystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan Dîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod swyddogion craffu yn cael gwybodaeth o ansawdd uchel mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei harwain gan yr Aelodau ac yn arddel 'perchnogaeth' ar ei rhaglen waith, gan ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr a sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi blaenoriaeth i bryderon y gymuned a materion o risg a phwysigrwydd strategol.<br>iv) Mae rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith ym maes craffu.<br>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, maent yn cael eu cadeirio'n effeithiol ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosib.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn darparu gwasanaeth cadw cydbwysedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar lefel Weithredol.<br>vii) Mae'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi cyfrif drostynt eu hunain yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau portffolio. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol.** | **Amgylchedd**<br>i) Mae'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol a Gweithredol yn cydnabod bod craffu yn ddull pwysig y gall y cyngor ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br>ii) Mae cyfathrebu effeithiol yn nodweddiadol o'r swyddogaeth graffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog pobl i ymwneud â hynny.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn ffordd anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â gwrthdaro, tensiwn a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthynas dda ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi 'llais' cymunedau a phobl leol ledled yr ardal i gael ei glywed fel rhan o brosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru